Corfforaeth Coleg y Cymoedd
Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Gorfforaeth

Yn y Cod hwn mae "Coleg" yn golygu y Coleg, ac mae "Aelod", "Cadeirydd", "Pennaeth" a "Swyddog Llywodraethu" yn y drefn honno yn golygu Aelod, Cadeirydd, Pennaeth a Swyddog Llywodraethu/Ysgrifennydd y Gorfforaeth ar y pryd. Mae gan bob diffiniad arall yr un ystyr ag a roddir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Coleg.

1. Cyflwyniad

1.1 Canllaw yn unig yw'r Cod Ymddygiad hwn i gynorthwyo Aelodau ynglŷn â'r safonau a ddisgwylir ganddynt ac i'w galluogi i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol. Cafodd ei gynllunio hefyd i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau ac egluro eu perthynas â'r Gorfforaeth a'r Pennaeth (y gellir cyfeirio atynt mewn llawer o amgylchiadau fel y Prif Weithredwr).

1.2 Bwriedir i'r Cod hyrwyddo llywodraethu effeithiol a gwybodus yn y Coleg, ond nid yw wedi'i fwriadu i fod yn ddatganiad cyfreithiol swyddogol ac awdurdodol. Yr Aelodau eu hunain sy'n penderfynu ar y Cod ac mae'n agored i gael ei ddiwygio fel y gwêl yr Aelodau eu hunain sy'n addas o fewn cyfyngiadau cyfreithiol a sefyllfaoedd a brofir mewn colegau eraill yng Nghymru a Lloegr.

1.3 Yn ogystal â'r Cod hwn, argymhellir bod Aelodau'n ymgyfarwyddo â'r canlynol a fydd yn cael eu rhannu â nhw ar adeg eu penodiadau:

a) Offeryn Llywodraethu'r Coleg;
b) Erthyglau Llywodraethu'r Coleg;
c) Cynllun Strategol y Coleg;
d) Memorandwm Ariannol yr Adran Addysg a Sgiliau.

Dylai Aelodau hefyd gyfeirio at Atodiad 1 (sydd ynghlwm wrth y Cod hwn er hwylustod). Ni ddylid ei ddarllen fel datganiad cynhwysfawr o ddyletswyddau, pwerau na darpariaethau, a dylai Aelodau gyfeirio at y dogfennau ffynhonnell a restrir uchod. Os oes gan Aelod amheuaeth ynghylch darpariaethau unrhyw ddogfen, dylid ymgynghori â'r Swyddog Llywodraethu ac, os oes angen, dylid cael cyngor cyfreithiol. Fodd bynnag, yr Aelodau unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am briodoldeb eu hymddygiad fel Aelod o gorff corfforaethol ac am unrhyw weithred anwaith yn rhinwedd y swydd honno.

1.4 Bydd y Cod yn berthnasol i bob Pwyllgor a gweithgor/grŵp a sefydlir gan y Gorfforaeth i gynnal busnes y Coleg yn effeithlon ac effeithiol.

1.5 Bydd derbyn penodiad yn Aelod o'r Gorfforaeth yn cael ei ddehongli fel derbyniad o'r Cod hwn.

1.6 Mae pob Aelod, drwy dderbyn darpariaethau'r Cod hwn, yn cytuno y gallai unrhyw achos o dorri'r Cod ganddynt arwain at derfynu eu penodiad fel Aelod. Pe bai Aelod sy'n staff yn peidio â chael eu cyflogi gan y Coleg mwyach, neu pe bai myfyriwr yn rhoi'r gorau i astudio yn y Coleg, byddai eu swydd fel Aelod yn dod i ben yn awtomatig.

2. Dyletswyddau Aelodau

2.1 Mae crynodeb o gyfrifoldebau Aelodau wedi'u cynnwys yn yr Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu.

2.2 Mae eu dyletswyddau eraill yn cynnwys:-

2.2.1 gweithredu fel ymddiriedolwr; sy'n golygu y dylai Aelodau ddangos y teyrngarwch uchaf a gweithredu'n ddiffuant er budd y Coleg.

2.2.2 cadw at Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Coleg.

2.2.3 monitro ac adolygu perfformiad y Pennaeth/Prif Weithredwr a'u huwch dîm rheoli a'r lefel o ddirprwyo cyfrifoldebau.

2.2.4 gwneud penderfyniadau er budd y Coleg (h.y. buddiannau'r myfyrwyr a defnyddwyr eraill o wasanaethau'r Coleg). Ni ddylai fod gan Aelodau unrhyw fuddiant personol ac ni ellir eu rhwymo gan fandadau a roddir gan eraill.

2.2.5 diogelu arian cyhoeddus a chynnal busnes yn unol â gweithdrefnau ariannol amrywiol a osodwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

2.2.6 cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau sydd o fewn pwerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

2.2.7 cymhwyso'r Cod y tu allan i'r Coleg pan fo'r Aelodau'n gweithredu fel cynrychiolwyr o'r Gorfforaeth, e.e. mewn cynadleddau, seminarau, ac ati.

2.3 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau er budd y Coleg ac ni ddylent ganiatáu i unrhyw fudd adrannol gymryd blaenoriaeth. Ni chaiff aelodau eu penodi fel "cynrychiolwyr" neu "ddirprwyon" unrhyw gorff ac nid ydynt wedi'u rhwymo'n gyfreithiol gan fandadau a roddir iddynt gan eraill.

3. Gwrthdaro Buddiannau

3.1 Fel unigolion eraill sydd â dyletswyddau ymddiriedol, dylai Aelodau geisio osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro (gwirioneddol neu bosib) rhwng eu buddiannau personol a'u dyletswyddau i'r Gorfforaeth. Ni ddylent ganiatáu i unrhyw wrthdaro buddiannau ddigwydd a allai ymyrryd â'u gallu i arfer annibyniaeth barn.

3.2 Atgoffir yr Aelodau na ddylent, o dan Gymal 12(1) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, fod ag unrhyw fuddiant yn unrhyw un o eiddo'r Coleg na derbyn unrhyw dâl am eu gwasanaethau (ac eithrio fel aelod o staff y Coleg) heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

3.3 Atgoffir yr Aelodau hefyd bod yn rhaid iddynt, o dan Gymal 12(2) o Offeryn Llywodraethu'r Coleg, ddatgelu i'r Gorfforaeth unrhyw fuddiannau ariannol sydd ganddynt, neu a allai fod ganddynt, yn y canlynol:

a) cyflenwi gwaith neu nwyddau i'r Coleg neu at ddibenion y Coleg;
b) unrhyw gontract neu gontract arfaethedig sy'n ymwneud â'r Coleg; neu
c) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r Coleg.

3.4 Fodd bynnag, nid oes rhaid i fuddiant fod yn un ariannol ar gyfer dibenion datgelu. Os yw'n debygol, neu y byddai'n debygol petai'n wybodaeth gyhoeddus, o gael ei ystyried fel rhywbeth sy'n ymyrryd â gallu Aelod i arfer annibyniaeth barn, yna dylai'r buddiant, boed yn ariannol neu fel arall:

a) gael ei adrodd i'r Swyddog Llywodraethu; a
b) cael ei ddatgelu'n llawn i'r Gorfforaeth cyn i'r mater sy'n achosi'r buddiant gael ei ystyried.

Dylai'r Aelod adael y cyfarfod pan fydd y mater sy'n achosi'r buddiant yn cael ei ystyried, ac ni chânt, ar unrhyw gyfrif, bleidleisio ar y mater.

3.5 Rhaid i aelodau beidio â derbyn rhoddion, lletygarwch na buddion o unrhyw fath gan drydydd parti y gellid eu hystyried fel rhai sy'n dylanwadu ar eu barn bersonol neu eu huniondeb. Dylid rhoi gwybod yn syth i'r Swyddog Llywodraethu am unrhyw gynnig neu dderbyn o rodd, lletygarwch neu fuddion o'r fath.

3.6 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cadw Cofrestr o Fuddiannau Aelodau a fydd yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio. Gwahoddir Aelodau i ddatgelu i'r Gorfforaeth yn rheolaidd yr holl fuddiannau busnes, ariannol neu fuddiannau eraill, a allai fod ganddyn nhw neu (hyd y gwyddant) eu priod neu bartneriaid, plant neu berthnasau agos eraill, a bydd y Swyddog Llywodraethu yn cofnodi buddiannau o'r fath ar y Gofrestr. Dylai Aelodau roi gwybod i'r Swyddog Llywodraethu pan fydd eu hamgylchiadau'n newid a phan fydd buddiannau'n cael eu caffael neu eu colli. Wrth benderfynu a ddylid datgelu buddiant, dylai Aelodau ystyried yr ystyr a roddir i "fuddiant" ym mharagraff 3.4 o'r Cod hwn.

4. Cydgyfrifoldeb

4.1 Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gydag Aelodau yn gwneud penderfyniadau mwyafrifol yn dilyn trafodaeth lawn mewn cyfarfodydd â chworwm. Ar ôl ei wneud, mae penderfyniad y Gorfforaeth yn rhwymo'r holl Aelodau ar y cyd, hyd yn oed os nad oedd y penderfyniad yn unfrydol. Dylai Aelodau unigol felly gefnogi a chadw at bob penderfyniad a wneir.

4.2 Os bydd Aelod yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Gorfforaeth, gallant ofyn i anghytundeb o'r fath gael ei gofnodi a gallant ofyn am drafodaeth bellach naill ai yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i amserlennu neu mewn cyfarfod arbennig os bydd y Cadeirydd yn meddwl bod hynny'n briodol.

5. Cyfrinachedd

5.1 Er mwyn dod i benderfyniadau i'w gwneud ar y cyd mae'n bwysig bod trafodaeth lawn ac agored yn digwydd ar lefel y Gorfforaeth a'r Pwyllgor. Bydd rhai materion, oherwydd eu natur, yn gyfrinachol a rhaid i Aelodau barchu cyfrinachedd o'r fath.

5.2 Mae'r holl agendâu, cofnodion ac adroddiadau ar gael i'w harchwilio gan y Swyddog Llywodraethu. Fodd bynnag, ni fydd rhai materion ar gael i'w gweld a bydd y rhain yn cael eu cadw ar wahân gan Swyddog Llywodraethu'r Gorfforaeth. Bydd gan Aelodau fynediad at y wybodaeth hon ar gais (gyda rhai eithriadau).

5.3 Dim ond y Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd yn eu habsenoldeb, fydd yn gwneud datganiad i'r wasg neu'r cyfryngau am fusnes y Coleg. Caniateir i'r Pennaeth/Prif Weithredwr hefyd wneud datganiadau i'r wasg neu'r cyfryngau.

6. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

6.1 Er mwyn i'r Gorfforaeth allu gweithredu'n iawn dylai Aelodau fynychu cyfarfodydd y Gorfforaeth yn rheolaidd. Cydnabyddir na all unrhyw Aelod, oherwydd rhesymau personol a busnes, fynychu pob un o gyfarfodydd y Gorfforaeth. Bydd presenoldeb Aelodau unigol yn cael ei ystyried gan y Gorfforaeth yn unigol o dan ddarpariaethau'r Erthyglau Llywodraethu.

7. Datblygiad Llywodraethwyr

7.1 Anogir Aelodau i gymryd rhan mewn proses hunanwerthuso ac i ofyn am hyfforddiant, yn unigol neu ar y cyd, yn ôl yr angen.

8. Tâl Cydnabyddiaeth

8.1 Ni thelir unrhyw dâl i Aelodau (ac eithrio'r Pennaeth a chynrychiolwyr staff yn rhinwedd eu swyddi cyflogedig) am wasanaethu ar y Gorfforaeth. Fodd bynnag, telir treuliau y cytunwyd arnynt o dan yr Erthyglau Llywodraethu.

9. Medr, Gofal a Diwydrwydd

9.1 Dylai Aelodau yn eu holl waith dros y Coleg arfer y fath fedr ag sydd ganddynt a'r fath ofal a diwydrwydd ag y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol pan fo Aelodau'n gweithredu fel cynrychiolwyr o'r Coleg, er enghraifft pan fydd swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i bwyllgor o'r Gorfforaeth neu'r Cadeirydd. Dylai aelodau fod yn ofalus i weithredu o fewn cylch gorchwyl unrhyw bwyllgorau maent yn gwasanaethu arnynt.

10. Casgliad

10.1 Bydd y Cod Ymddygiad hwn ar gyfer Aelodau yn cael ei adolygu bob dwy flynedd oni bai bod amgylchiadau'n codi sy'n gofyn am adolygiad interim.

Atodiad 1

Crynodeb o Gyfrifoldebau Aelodau o'r Gorfforaeth

Cyfrifoldebau

O dan Erthygl 3(1) o Erthyglau Llywodraethu'r Coleg, bydd y Gorfforaeth yn gyfrifol am y canlynol:

(a) penderfynu ar genhadaeth a chymeriad addysgol y sefydliad a'u hadolygu o bryd i'w gilydd, a goruchwylio ei weithgareddau;
(b) cyhoeddi trefniadau ar gyfer casglu barn staff a myfyrwyr y sefydliad ar y materion sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 3(1)(a);
(c) gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, solfedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;
(d) cymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol;
(e) penodi, graddio, gwerthuso, atal dros dro, a phenderfynu ar gyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid uwch swyddi a'r Swyddog Llywodraethu;
(f) diswyddo deiliaid uwch swyddi a'r Swyddog Llywodraethu;
(g) pennu fframwaith ar gyfer tâl ac amodau gwasanaeth yr holl staff eraill;
(h) sicrhau ymgynghori ag unigolion yn ardal y sefydliad sy'n cael addysg neu hyfforddiant, cyflogwyr yn yr ardal a chyrff sy'n cynrychioli unigolion sy'n byw yn yr ardal honno ynghylch yr addysg a ddarperir yn y sefydliad a chynllunio ei gwricwlwm; ac
(i) os nad oes Bwrdd Academaidd, sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer cynghori'r Pennaeth ar sefyllfa, cynllunio, cydlynu, datblygu a goruchwylio gwaith academaidd y sefydliad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer derbyn, asesu ac arholi myfyrwyr a gweithdrefnau ar gyfer diarddel myfyrwyr am resymau academaidd.

Cyfrifoldebau na ddylid eu dirprwyo

Mae Erthygl 6(2) o'r Erthyglau Llywodraethu yn gwahardd y Gorfforaeth rhag dirprwyo'r canlynol:

a) penderfynu ar genhadaeth a chymeriad addysgol y sefydliad;
b) cymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol;
c) cyfrifoldeb dros sicrhau solfedd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;
d) penodi unigolyn i swydd uwch;
e) penodi Swyddog Llywodraethu;
~~f)~~ creu Erthyglau Llywodraethu newydd neu addasu'r Erthyglau cyfredol.

O dro i dro, gall y Gorfforaeth benderfynu ychwanegu materion eraill na ddylid eu dirprwyo i'r rhestr hon o gyfrifoldebau "a gadwyd".